



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 24.11.2016

Taith America 2016

Wedi'r holl flynyddoedd o drefnu a pharatoi ar gyfer yr antur newydd hon, fe ddaeth yr 20fed o Hydref 2016 o'r diwedd. Yr antur hon oedd Taith yr adran Hanes i'r Amerig, sy'n ymweld â Washington, Philadelphia ac Efrog Newydd.

20/10: Gadawom yr ysgol am 3:00 y.b ar ôl llwytho'r bysiau gyda'n bagiau trwm, nid oedd sôn am flinder - roedd pawb mewn anghrediniaeth bod y foment hon wedi cyrraedd. Ar ôl cyflawni holl brosesau'r maes awyr, brecwast oedd ar feddyliau pawb. Wedi hynny, hedfanom ar awyren enfawr British Airways er mwyn cyrraedd ein cychfan cyntaf, sef prif ddinas UDA. Roedd tywydd braf yn ein disgwyl yn Washington.D.C ac ar ôl cyrraedd y gwesty, a chyfarwyddo gyda'r ardal ychydig, aethom ar daith cerdded i weld y Tŷ Gwyn, cartref yr Arlywydd Obama, a nifer o'r adeiladau o'i amgylch yn cynnwys cartref yr Is-Arlywydd, Joe Biden. Pryd bwyd yn yr Hard Rock Café oedd i orffen ein diwrnod, er mai crysau-T'r lle bwyta oedd yn fwy o 'hit' na'r bwyd ei hunain...

21/10: Diwrnod o gerdded oedd yn ein hwynebu ar y diwrnod yma, ac fe wnaethom ymweld â phrif adeiladau'r Llywodraeth sef Y Gyngres, y Llys Goruchaf, Y Swyddfa Bost ac Adeilad yr FBI. Penderfynodd nifer ohonom fod angen prynu pâr o esgidiau cyffyrddus gan fod y cerdded yn anoddach ar y traed na'r disgwyl. Adloniant y noson oedd ymweliad i'r sinema yn China Town.

22/10: Diwrnod hir iawn oedd o'm blaenau ar y Dydd Sadwrn hwn, gydag ymweliadau i Fynwent Arlington, Cofebion Lincoln, Fietnam, Korea a'r Ail Rhyfel Byd, Tŵr Washington a bwyd yn y 'Ronald Reagan Centre'. Cawsom yna gyfle i siopa am BEDAIR AWR yn Pentagon City cyn dychwelyd i'r gwesty ar y Metro a dod i ddiwedd ein cyfnod yn Washington.

23/10: Gadawsom y gwesty yn gynnar bore Dydd Sul er mwyn cyrraedd ein lleoliad nesaf, sef Gettysburg. Ymwelsom â 'National Military Park Gettysburg' lle dysgom am hanes Rhyfel Cartref UDA wrth wyllo ffilm a cyclorama. Yn dilyn, aethom ar daith 2 awr o amgylch maes y frwydr gyda'r Park Rangers, dyma pryd darodd y blinder. Ar ôl dadlwytho'r bws a darganfod ein hystafelloedd roedd yn amser bwyd ac roedd yn sialens darganfod rhywle i fwyta yn 'Small Town USA', tref wedi ei llenwi gan atyniadau Calan Gaeaf.



24/10: Yn dilyn noswaith dda o gwsg yn Gettysburg, ymlaen a'r daith i'r "City of brotherly love"-Philadelphia. Ymweliad a Eastern State ac ar ôl gweld 'statue' Rocky Balboa, dyma gyfle i ni gymryd rhan yn ras enwog Ysgol Bro Myrddin, i fyny'r 'Rocky Steps'. Siom i 'Aide the Blade' flwyddyn yma eto wrth iddo golli'r ras i Lewys Daniels a Llew Humphreys. Cawsom fwyd yn un o neuaddau bwyd enwocaf y wlad a nifer ohonom yn ceisio cig crocodeil neu frechdanau anferthol 'Man vs Food'. Cyn dychwelyd i'r bysiau aethom i eistedd tu

allan Neuadd Annibyniaeth America a cheisio gwranddo ar Mr G Jones yn adrodd yr hanes, ond rhaid cyfaddef bod hyn yn dipyn o her wrth i grŵp o dwristiaid Tseiniaidd fynnu cael llun gyda Mr Jones. Ar ôl taith ar y bus cyrhaeddasom fwrlwm Efrog Newydd, a disgleiriwyd llygaid pob disgybl wrth i ni fynd i mewn i'r ddinas brysur. Heb ryw lawer o amser i orwedd ar ein gwelyau cyffyrddus yn y gwesty modern hwn, cerddasom draw i 'Times Square' er mwyn cymryd rhan yn y 'Flashmob' Gymreig. Yn ymuno gyda ni i ganu'r anthem oedd Ysgol Cwm Rhymni ac Ysgol Llantrisant oedd hefyd ar drip yn y ddinas fawr. Empire State Building oedd atyniad olaf y diwrnod ac er y gwynt cryf, roedd yr olygfa yn werth chweil. Dyma gyfle i ni gyd cael lluniau gyda'n ffrindiau ac roedd hon yn foment i'w drysori.

25/10: Roedd hi'n ddydd Mercher erbyn hyn, ar wythnos yn hedfan. Dihuno am 8 y bore a dechrau ar daith gerdded o amgylch canol Manhattan. Ymweliadau i Ground Zero, One World Trade Center a'r cyfle i fynd i ynys Ellis i ymweld â'r 'Statue of Liberty oedd yn ein disgwyl. Roedd pawb ar bigau'r drain gan mai heddiw oedd ein cyfle i ymweld â rhai o atyniadau mwyaf America. Ar ôl diwrnod hir o gerdded, roedd bwyd ar feddyliau pawb ac i Elens diner yr aethom. Roedd yr adeilad yn llawn o gantorion gwych yn ein croesawu gan berfformio caneuon yn fyw gan weini bwyd yr un pryd. Dyma oedd un o uchafbwyntiau'r trip.

26/10: Grand Central Terminal oedd y lle cyntaf i ni ymgweld ag ef, ac yna ymlaen i Chrysler Building a Central Park. Cawsom luniau i'w drysori'r diwrnod hwn ac atgofion bythgofiadwy. Dyma oedd ein noson olaf yn yr UDA, a phawb wedi cynhyrfu gan mai dal 'stretch limos' i Broadway i wyllo sioe Phantom of the Opera oedd o'm blaenau. Dyma oedd ein cyfle i wisgo yn drwsiadus ac i deithio mewn steil lawr strydoedd mwyaf enwog America. Roedd y sioe yn wych ac yn werth ei gweld.

27/10: Heddiw oedd ein diwrnod olaf i siopa yn Herald Square, a chawsom y cyfle i brynu anrhegion yn un o siopau mwya'r byd sef Macy's. Gadawodd 12 disgybl gyda Mr Madoc Jones i fynd i ddal yr awyren ym maes awyr Newark i fynd i Ddilyn. Ar ôl cyrraedd y maes awyr, cawsom alwad ffôn gan un o'r athrawon yn dweud bod tua 90 o ddisgyblion a 10 athro methu hedfan nôl i Heathrow gan bod y cwmni hedfan wedi canslo eu taith adref. Cafodd y mwyafrif o'r disgyblion noson ychwanegol yn Efrog Newydd gan ddal yr awyren i ddod adref y diwrnod dilynol ar y 28ain o Hydref. Tua chanol dydd ar ddydd Sadwrn y 29ain cyrhaeddodd pawb adref yn ddiogel wedi'r holl gymlethdodau y diwrnod blaenorol. Roedd ein trip i'r UDA wedi dod i'w therfyn a phawb wedi blino'n lân.

Dyma yn sicr oedd un o wythnosau gorau ein bywydau - am drip anhygoel, a phawb wedi cael profiadau bythgofiadwy. Rhaid diolch i'r Adran Hanes a'r holl athrawon am eu gwaith trefnu ac am eu cwmni.

Adroddiad gan Mared Thomas ac Efa Jones blwyddyn 11

Taith blwyddyn 7 i ymweld â'r Synagog a Gwrdwara yng Nghaerdydd

Ar ddydd Iau, Tachwedd y 3ydd aeth blwyddyn 7 ar daith i Gaerdydd, er mwyn ymweld â dau adeilad crefyddol sef y Synagog a'r Gwrdwara.

Yn gyntaf, aethom i'r Synagog, sef adeilad addoli'r Iddewon. Yno cawsom y profiad o weld y Torah a dysgu am y crefydd. Oeddech chi'n gwybod taw llyfr yr Iddewon yw'r Torah sy'n cael ei ddarllen o'r dde i'r chwith yn wahanol i ddarllen y Beibl? Mae hefyd yn cael ei gadw mewn arch. Y Rabi sy'n arwain y gwasanaeth ac fe sy'n darllen y Torah. Mae'r Torah mor hir â chae pêl droed! Mae hynny'n enfawr! Oeddech chi hefyd yn wybod bod Iddewon yn gwahanu cig a chynnyrch llaeth, felly byddant ddim yn gallu bwyta pítsa peperoni neu fyrgys gaws!

Yn y Synagog roedd yna saith ffenest lliw oedd yn cynrychioli gwyliau a hanes y grefydd. Roedd y bechgyn a merched yn cael eu gwahanu i ddwy ochr. Roedd y menywod mwy crefyddol yn eistedd ar y llawr uchaf a gwisgai'r dynion Cippa sef het fechan ar goryn eu pen fel arwydd o barch i Dduw. Gwnaethom ddysgu hefyd taw Dydd Sadwrn yw dydd Saboth yr Iddewon sef Shabbatt pan maent yn treulio amser gyda theulu ac addoli ac mae Hebraeg yw eu hiaith.



Ar ôl ymweld â'r Synagog fe aethom yn ôl ar y bus a theithio i'r Gwrdwara, sef lle addoli'r Sikhiaid. Pan aethom i mewn fe gawsom gyfarwyddiadau i dynnu ein hesgidiau i ffwrdd a mynd i olchi'n dwylo cyn mynd lan y grisiau i gael gwasanaeth. Gwisgai y merched sgarff am eu pen a'r bechgyn rhywbeth tebyg i fandana. Roedd y bechgyn a'r merched eto yn eistedd arwahan ar y llawr gan groesi ein coesau. Ar ôl eistedd nid oedd hawl gennym i bwyntio ein traed at y Guru Granth Sahib fel arwydd o barch.

Yn dilyn y gwasanaeth byr aethom nôl lawr y grisiau ble cawsom fisgedi, brechdanau, creision a diod. Roedd y croeso yn arbennig. Ar ôl llenwi ein boliau cyn gadael cawsom gyfle i holi cwestiynau.

Roeddem i gyd wedi mwynhau'r daith ac roedd yn brofiad anhygoel. Diolch i'r adran Addysg Grefyddol am fynd a ni. Hoffem fynd eto!

Adroddiad gan Griff James 7-1

Canlyniadau Chwaraeon



Llongyfarchiadau i Osian Williams 7-3 am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth Slalom Caiac yn Llandysul yn ddiweddar. Da iawn ti.

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed dan 16 yr ysgol ar ddod yn bencampwyr twrnament Ann Smart Sir Gâr. Dyma'r canlyniadau:

BM 12 v Dyffryn Taf 6

BM 10 v Dyffryn Aman 9

BM 16 v Bro Dinefwr 7

BM 11 v Maes Y Gwendraeth 9

BM 11 v Llandoverly 2

BM 15 v QEHS 2

Pencampwyr Sir Gâr

Llongyfarchiadau i fechgyn blwyddyn 7 ar ddod yn bencampwyr pêl-droed Sir Gâr ar Dachwedd y 15fed gan guro Bryngwyn o 7 i 0.

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm pêl-droed hŷn a enillodd yn erbyn Dyffryn Aman o 2 gôl i 1.